

Pecyn Dogfen Cyhoeddus

PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn TRWY CYFRWNG FIDEO., Dydd Iau, 15 Ebrill 2021 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Hugh Irving, Pat Jones, Melvyn Mile, Rhys Thomas ac Emrys Wynne (Is-gadeirydd)

Roedd y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth, yn bresennol ar gais y Pwyllgor.

Yn arsylwi – y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies.

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau (NS), Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Rheolwr Tîm – Cymorth Busnes (BC), Cydlynnydd Craffu (RE), Gweinyddwr Pwyllgorau (Trefnydd-KJ), Gweinyddwr Pwyllgorau (Cymorth i'r Trefnydd - SJ) a Gweinyddwr Pwyllgorau (RTJ).

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Joan Butterfield, Ann Davies, Gareth Davies a Christine Marston.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys gyda'r Cadeirydd cyn y cyfarfod.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cafodd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2021 eu cyflwyno.

Ni chodwyd unrhyw fater mewn perthynas â chynnwys y cofnodion.

Penderfynwyd: - cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2021 fel cofnod cywir o'r trafodion.

Holodd yr Aelodau a fyddai'n bosib ailgychwyn y sesiynau briffio rhag-gyfarfod i baratoi ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor, fel oedd yr arfer cyn i'r pandemig arwain at gynnal cyfarfodydd y Pwyllgor dros y we. Eglurodd y Cydlynnydd Craffu pam nad oedd y rhag-gyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, ond cynigiodd geisio

trafodaeth gyda'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu am y dulliau posib o ailgychwyn yr arfer hwn.

5 DATGANIAD SEFYLLFA MARCHNAD GWASANAETHAU CEFNOGAETH CYMUNEDOL 2021-24

Bu i'r Cynghorydd Bobby Feeley – Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth, gyflwyno adroddiad Datganiad Sefyllfa'r Farchnad (DSF) y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol 2021-24 (a ddisbarthwyd ymlaen llaw). Roedd y DSF yn nodi cynnig y Gwasanaeth i'r farchnad, ac yn crynhoi'r anghenion a'r blaenoriaethau presennol. Byddai'n helpu darparwyr presennol/posibl (gan gynnwys y sector annibynnol, y trydydd sector, mentrau nid-er-elw a mentrau cymdeithasol) i ddatblygu a llunio'r gwasanaethau cymorth a gofal y maent yn eu cynnig i oedolion yn Sir Ddinbych.

Cafodd y DSF diwethaf ei gwblhau yn 2017, ac mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud o ran anghenion a gofynion ers cytuno ar y datganiad hwnnw. Atodwyd y datganiad newydd arfaethedig yn Atodiad 1 yr adroddiad. Mae'r DSF newydd ar gyfer 2021-24 wedi cael ei ddiweddarau'n llwyr i adlewyrchu tystiolaeth newydd o anghenion a gofynion, blaenoriaethau a chyfeiriadau teithio newydd, ac mae'n cynnwys crynodeb o fanylion cynlluniau penodol ar gyfer datblygiadau newydd, lle'r oedd y rheiny eisoes yn hysbys. Mae hefyd yn cynnwys pennod fer ar effeithiau argyfwng Covid-19 o ran sut y mae'n rhaid i'r Gwasanaeth ymateb a llunio'r ffordd y mae'n cynllunio ac yn darparu ei ofal cymdeithasol.

Parhaodd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i fod yn sail strategol i gomisiynu cynlluniau a gweithgarwch datblygu yn y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol. O ganlyniad, mae'r DSF yn canolbwyntio'n amlwg ar ymyrraeth gynharach, cynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned, helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth a sicrhau bod gan ddinasyddion lais, dewis a rheolaeth o ran eu gofal a'u cymorth eu hunain.

Mae'r DSF hefyd yn egluro awydd y Gwasanaeth i weithio gyda darparwyr a fyddai'n cynnig y gwerth gorau drwy gyflawni canlyniadau blaenoriaethol a chydweithio'n greadigol. Rhaid i bob gwasanaeth a gomisiynir osgoi ailadrodd gwaith, a lleihau'r galw ar wasanaethau statudol.

Hysbysodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol y Pwyllgor bod gofyn statudol ar y Gwasanaeth i gynhyrchu DSF.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth –

- Tynnodd y Pwyllgor sylw at yr heriau a gododd mewn perthynas â darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, a'r anawsterau a wynebwyd wrth geisio recriwtio digon o staff i ddarparu gwasanaethau gofal drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd pryderon bod rhai pobl wedi cael eu symud o'u cymunedau lleol i dderbyn gofal ac, oherwydd lleoliad mathau penodol o ddarpariaeth gofal, nid oedd digon o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar adegau. Cytunodd y Swyddogion fod yna heriau o fewn y sector, gan gynnwys darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, ond bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod Safonau'r Gymraeg yn cael eu cyrraedd. Roedd yr

angen i fodloni gofynion Cymraeg defnyddwyr y gwasanaeth fel rhan o ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth eisoes wedi'i wreiddio yn agwedd dendro'r broses gaffael.

- Wrth symud ymlaen, gobaiith y Cyngor yw y bydd yn gallu defnyddio unigolion sydd wedi bod yn gweithio fel gwirfoddolwyr cyfeillio yn ystod argyfwng COVID-19 i helpu gydag anghenion Cymraeg trigolion.
- Mae anawsterau o ran recriwtio staff y sector gofal yn broblem genedlaethol, ac nid yw'n unigryw i Sir Ddinbych.
- Canmolodd yr Aelodau yr amcanion a nodwyd yn y DSF oedd â'r nod o sicrhau bod pobl yn aros yn eu cartrefi eu hunain y hytrach nag yn mynd i ofal. Fodd bynnag, holwyd a oedd yna gymhellion neu gymorth ariannol ar gael i annog mwy o bobl i aros gartref. Eglurodd y swyddogion y defnyddiwyd cynllun taliadau uniongyrchol i helpu'r unigolion hynny oedd yn dewis aros gartref. Roedd y taliadau hyn yn galluogi'r unigolyn ei hun i ddewis a phrynu gwasanaethau gofal a chymorth oedd yn addas i'w hanghenion unigol.
- Holodd y Pwyllgor sut y gallai teuluoedd gael gafael ar wasanaethau gofal a chymorth yn y lle cyntaf mewn argyfwng, ac eglurodd y swyddogion y byddai angen iddynt gysylltu â'r Un Pwynt Mynediad (UPM). Ar ôl gwneud hynny, byddent yn cael eu cyfeirio at y gwasanaethau perthnasol a allai ddarparu cymorth.
- Gellid darparu gofal seibiant i drigolion a gofalwyr mewn amrywiaeth o leoliadau, nid o reidrydd mewn lleoliad cartref gofal yn unig.

Bu i'r Pwyllgor:

Benderfynu: yn amodol ar y sylwadau uchod, y byddai'n cadarnhau -

- (i) bod Datganiad Sefyllfa'r Farchnad y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol 2021-24 yn adlewyrchu dealltwriaeth o'r farchnad leol a busnesau darparwyr lleol, a'i fod yn nodi'n glir sut y bydd yr amrediad o ofal a chymorth, yn awr ac yn y dyfodol, yn cael ei lunio a'i addasu i ymateb i faterion lleol penodol, ac yn helpu darparu blaenoriaethau'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a blaenoriaethau corfforaethol allweddol;***
- (ii) ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les sydd i'w weld yn Atodiad 2 yr adroddiad, fel rhan o'i ystyriaethau.***

6 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu ei raglen gwaith i'r dyfodol a chytuno arni. Tynnwyd sylw'r Aelodau at y pwyntiau canlynol:

- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) wedi cadarnhau'n ddiweddar y bydd cynrychiolwyr ar gael i fynychu cyfarfod y Pwyllgor i drafod 'Gwasanaethau Methiant y Galon yn Sir Ddinbych a'u heffaith ar Wasanaethau Gofal Cymdeithasol y Cyngor' ar 8 Gorffennaf 2021. Mae'r eitem hon wedi'i rhestru o dan adran 'Materion y Dyfodol' y rhaglen gwaith i'r dyfodol ers peth amser yn aros am gadarnhad eu bod ar gael i fynychu.

- Bu i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu (y Grŵp) ystyried y cais i archwilio 'Datganiad Sefyllfa Cenhadaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol 2021-24' yn ei gyfarfod ar 11 Mawrth 2021. Y Grŵp a'i cyfeiriodd at y Pwyllgor i graffu arno yn y cyfarfod hwn.
- Yn yr un cyfarfod, bu i'r Grŵp ystyried amserlen gyhoeddi adroddiadau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd). Gan mai'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau oedd pwyllgor dynodedig y Cyngor ar gyfer craffu'r Bwrdd, roedd y Grŵp, yn unol â'r protocol y cytunwyd arno gan bob un o chwech awdurdod lleol Gogledd Cymru a'r Bwrdd, yn argymhell y dylai'r Pwyllgor wahodd cynrychiolwyr y Bwrdd i gyfarfod â'r Pwyllgor ddwywaith y flwyddyn i drafod y cynnydd a wnaed o ran gwireddu ei amcanion. Y cynnig oedd y dylai cynrychiolwyr y Bwrdd fynychu'r Pwyllgor Craffu ar ddiwedd Chwarter 2 a 4 y flwyddyn ariannol i drafod eu Hadroddiadau Chwarterol a Blyneddol, gydag adroddiadau Chwarter 1 a Chwarter 3 yn cael eu hanfon i aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth. Cytunodd y Pwyllgor i fabwysiadu'r drefn hon.
- Y ddogfen 'Briff Gwybodaeth' a ddisbarthwyd i aelodau'r Pwyllgor cyn y cyfarfod, a oedd yn cynnwys yr adroddiad gwybodaeth chwarterol rheolaidd ar 'Fonitro Ansawdd Gwasanaethau Gofal Allanol', yn ogystal â gwybodaeth am yr hyn a ddisgwyliwyd gan y Pwyllgor Craffu mewn perthynas â 'Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol newydd Cymru'.

Cytunodd y Pwyllgor i estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr y Bwrdd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 20 Mai 2021, i gyflwyno Adroddiad Blyneddol y Bwrdd ar gyfer 2020/21. Cytunodd hefyd i gadarnhau trefniadau i gynrychiolwyr BIPBC fynychu'r un cyfarfod i drafod cynlluniau'r Bwrdd ar gyfer cyfeiriad y gwasanaeth a ddarperir yn y dyfodol yn Sir Ddinbych, gan gynnwys y cynnydd a wnaed o ran gwireddu prosiectau cyfalaf pwysig ar draws y sir.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

Penderfynwyd: - cymeradwyo Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor fel y'i nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad, yn amodol ar gadarnhau derbyn yr ychwanegiadau a'r diwygiadau a amlinellir uchod.

7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.05am